# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Mehefin 2019

Amser: 13.23 - 16.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5458

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Sioned Evans, Llywodraeth Cymru<br>Duncan Hamer, Llywodraeth Cymru<br>Jonathan Hopkins, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Gareth Bennett AC i'r Pwyllgor yn dilyn ei etholiad ar 25 Mehefin.

## 2 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru i Fusnesau: Sesiwn Dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol; Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau a Duncan Hamer, Dirprwy Gyfarwyddwr, Busnes o Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymchwiliad i Gymorth Ariannol Llywodraeth Cymru i Fusnesau.

2.1 Cytunodd Andrew Slade i anfon rhagor o wybodaeth am nifer o bwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru i Fusnesau: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

4.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law

## 5 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft a nodwyd y byddai fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar 8 Gorffennaf i'w thrafod ymhellach.